

## Cyrsiau Uwch Prifysgol Aberystwyth yn Sir Gâr, 2016-17

---

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi newid rhai o deitlau cyrsiau uwch Sir Gâr er mwyn bod yn gyson â theitlau cyrsiau uwch ym Mhowys a Cheredigion. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng y teitlau llynedd ac eleni.

Enw'r cwrs gan Brifysgol Abertawe/PCYDDS yn 2015/16	Enw'r cwrs cyfatebol gan Brifysgol Aberystwyth yn 2016/17
Uwch Dwys Blwyddyn 1 (60 awr)	Uwch 1 (60 awr)
Uwch Dwys Blwyddyn 2 (60 awr)	Uwch 2 (60 awr)
Uwch 2 blwyddyn 1 (60 awr)	Uwch 3 (60 awr)
Uwch 2 blwyddyn 2 (60 awr)	Uwch 4 (60 awr)
Uwch Dwys blwyddyn 1 (120 awr)	Uwch 1 Dwys (120 awr)
Uwch Dwys Blwyddyn 2 (120 awr)	Uwch 2 Dwys (120 awr)

Yn syml, mae dau lwybr i ddilyn y Cwrs Uwch, ac mae'r ddau lwybr yn defnyddio Cwrs Uwch Dwys Prifysgol Abertawe:

- Cyrsiau Uwch 60 awr y flwyddyn (2 awr yr wythnos) am hyd at bedair blynedd o Uwch 1 i Uwch 4
- Cyrsiau Uwch Dwys 120 awr y flwyddyn (4 awr yr wythnos) dros ddwy flynedd, sef Uwch 1 Dwys ac Uwch 2 Dwys

### Disgrifiad o'r Cwrs Uwch

Cwrs i ddysgwyr profiadol sy'n para lleiafswm o 120 o oriau fel arfer, dros un neu ddwy flynedd, ond gall gymryd hyd at bedair blynedd. Does dim nod cymhwyster achrededig yn gysylltiedig â'r cwrs hwn, ond anogir myfyrwyr i weithio tuag at Arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Uwch CBAC.

### Nodau ac Amcanion (120 awr)

Nod y cwrs yw adolygu'r hyn a wnaed yn y Cwrs Canolradd Dwys, cyflwyno geirfa newydd, cyflwyno rhagor o wahaniaethau rhwng iaith y de a iaith y gogledd, ac estyn dealltwriaeth a defnydd o'r iaith lenyddol.

### Canlyniadau Dysgu

Wrth gwblhau'r modiwl 120 awr yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gallu:

- Disgrifio digwyddiadau yn y gorffennol
- Defnyddio'r ferf mewn gwahanol amserau, gan gynnwys ffurfiau llenyddol (amodol, dyfodol, presennol a'r amherffaith)
- Defnyddio gorchmynion
- Defnyddio hwn/hon/hwnna ac ati
- Disgrifio oedran a blynyddoedd
- Defnyddio trefnolion, lluosogion a dyddiadau
- Defnyddio'r frawddeg bwysleisiol

- Trafod y wasg, newyddion, cerddi, llyfrau, digwyddiadau diwylliannol, ac elfennau o hanes Cymru

### **Siawns am Sgwrs (1-3)**

Cwrs lled-ffurfiol yw hwn (60 awr y flwyddyn), a gellir ei ddilyn fel dewis amgen i gwrs Uwch, neu fel cwrs dilyniant i gwrs Uwch, i ddysgwyr sydd am ymarfer Cymraeg llafar, ac ennill rhagor o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amryw o gyd-destunnau cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y pwyslais ar siarad Cymraeg, a bydd y cwrs hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddeunydd darllen, gwrando a gwyllo. Gellir teilwra'r cwrs yn unol â diddordebau ac anghenion y grŵp.